

Mantell

NEWYDDLLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 78 – Gorffennaf 2017

CYNNWYS

O Mantell	2
Newyddion	3
Canolfan Gwirfoddoli	4,5,6
Iechyd a Llesiant	7
Canolfan Gwerth Budd Cymdeithasol	8
Cyfleoedd Ariannu	9
Digwyddiadau ac Hyfforddiant	10



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

MANTELL GWYNEDD

Swyddfa Gofrestredig:

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon
Gwynedd LL55 1AB
Ffôn: 01286 672626

E-bost:

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Swyddfa Gofrestredig:

Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt,
Dolgellau, Gwynedd LL40 1SB
Ffôn: 01341 422575

Gwefan:

www.mantellgwynedd.com



Facebook: **Mantellg**



Trydar: **@mantellgwynedd**

WYTHNOS GWIRFODDOLWYR



Rhai o'r gwirfoddolwyr

Mae Wythnos Gwirfoddolwyr yn wythnos genedlaethol sy'n cael ei chynnal yn flynyddol rhwng y 1af-7fed o Fehefin. Prif nod yr achlysur yw **Cydnabod, Recriwtio a Gwobrwyo** gwirfoddolwyr.

Eleni, cynhaliwyd diwrnodau recriwtio gwirfoddolwyr yn ein swyddfeydd yng Nghaernarfon a Dolgellau. Uchafbwynt y dathliadau oedd ein **Digwyddiad Dathlu a Diolch** blynyddol a gynhaliwyd ym Mhortmeirion ar y 7fed o Fehefin. Bu'n ddigwyddiad llwyddiannus iawn yng nghwmni ein siaradwraig gwâdd, Cyngorydd Angela Russell a derbyniodd mwy o wirfoddolwyr nac erioed dystysgrifau teilyngdod. Rhoddodd Angela araith bersonol wrth iddi drafod a phwysleisio pwysigrwydd gwirfoddolwyr.



*Thomas Jones
(Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor)*

Cafwyd pedwar enwebiad o Wynedd yng ngwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2017. Roedd un yng nghategori gwirfoddolwr ifanc (Thomas Jones – Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor), dau yng nghategori grŵp gwirfoddol (Cyfeillion Coedlannau Llanbedr a Chŵn Tywys Gwynedd) ac 1 yng nghategori gwirfoddolwr gwyrdd y flwyddyn (Abbi Gosling – Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor).

STAFF MANTELL GWYNEDD**Prif Swyddog:**

Bethan Russell Williams

TÎM DATBLYGU A GWASANAETHAU**Uwch Swyddog Datblygu a Gwasanaethau:**

Delyth Vaughan Rowlands

Rheolwr Gwerth Cymdeithasol:

Eleri Lloyd

Cyfrifydd Cymdeithasol:

Dr Adam Richards

TÎM IECHYD**Hwylusydd Iechyd a Llesiant:**

Sioned Llwyd Larsen

Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol,**Swyddog Cyswllt Cymunedol:**

Rhian Griffiths

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL**Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu:**

Ceren Williams

Swyddog Gweinyddol:

Bronwen Rowlands

Cynorthwy-ydd Cyllid:

Tracy Williams

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:

Tracy Lynne Rotheram

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:

Ellen ap Dafydd

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI**Cydlynnydd Canolfan Gwirfoddoli:**

Carwyn Humphreys

Swyddog Gwirfoddoli:

Gwenllian Glyn Dafydd

**Deunydd i'r Rhifyn nesaf
o Mantell**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth
i rifyn nesaf o Mantell yw**9 TACHWEDD, 2017**Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw
wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**Swyddog Mantell Dolgellau
e-bost:

ellenapdafydd@mantellgwynedd.com

Ffôn: 01341 422 575

Pwt y Prif Swyddog

Mae Mehefin y 1af i'r 7fed pob blwyddyn yn cael ei adnabod fel Wythnos Gwirfoddoli, dyma'r drefn ers 1984 pan sefydlwyd yr arferiad. Dyma un o'n uchafbwyntiau blynyddol ni fel trydydd sector ac yn arbennig yn Mantell Gwynedd. Mae'r wythnos yn gyfle i gydnabod cyfraniad dros 23 miliwn o wirfoddolwyr dros y Deyrnas Unedig, y rhai sydd yn gwirfoddoli er lles eu cymunedau ac er lles eraill.

Yn 2013, cyhoeddodd y King's Fund waith ymchwil ar ddefnydd gwirfoddolwyr yn yr Ymddiriedolaethau Iechyd a'r sector Gofal Cymdeithasol yn Lloegr – daethpwyd i'r casgliad fod oddeutu tair miliwn o wirfoddolwyr yn rhoi eu hamser yn y maes Iechyd a Gofal – yr un faint ag sydd yn gyflogedig yn yr Ymddiriedolaethau Iechyd a'r sector Gofal yno.

Yn nes at adref ym Mhortmeirion ar y 7fed o Fehefin cafwyd uchafbwynt Wythnos Gwirfoddoli yng Ngwynedd sef y Te Dathlu a Diolch. Pob blwyddyn rydym yn cymryd y cyfle i gydnabod rhai o wirfoddolwyr arbennig y sir. Fel y gwelwch o gynnwys y newyddlen hon, bu'n ddathliad gwerth chweil eto eleni. Braint yw rhannu gofod gyda phobl sydd yn rhoi o'u hamser er mwyn gwella ansawdd bywyd i eraill. Braint llwyr.

Fel rhywun sydd wedi mynychu y digwyddiad dros y 15 mlynedd diwethaf yr hyn a'm trawodd eleni oedd y trawsdoriad oedd yn cael ei gydnabod – yn fudiadau fel yr Ambiwllans Awyr, Gwasanaeth Cyfiawnder Pobl Ifanc, Amgueddfa Forwrol Llŷn, Ffermwyr Ifanc Eryri, Cymdeithas y Deillion, Clwb Strôc Gwynedd a Môn, GISDA, Wild Elements a Coedwigoedd Llanbedr – pob ardal yng Ngwynedd yn cael cydnabyddiaeth, pob oedran yn cael sylw, a phob math o wasanaeth yn cael cefnogaeth gan wirfoddolwyr. Mae trawsdoriad fel hyn yn dangos fod yna le i wirfoddoli gyfoethogi pob elfen o'n bywydau a fod 'na ryweth i bawb sydd yn dymuno gwirfoddoli lle bynnag bo hynny yn digwydd, a phwy bynnag fydd yn cael y budd ohono.

Soniodd y Cynghorydd Angela Russell, y siaradwraig wâdd, am ei magwraeth yn Llanbedrog, yn un o dair chwaer ac un ohonynt wedi ei geni gyda chyflwr Down's Syndrome. Eglurodd am yr heriau aruthrol wynebodd y teulu oherwydd y cyflwr a sut y bu i hynny newid eu bywydau oll, am byth. Meddai Angela "Erbyn heddiw mae yna lu o fudiadau gwirfoddol ac elusenol yn gallu cynnig cefnogaeth i rai sydd yn byw gyda'r cyflwr yma, 'toedd na ddim cefnogaeth felly pan oeddan ni yn tyfu fyny. Mae cyfraniad yr elusennau cefnogol heddiw yn golygu bywyd llawer gwell i deuluoedd na gawson ni fel teulu hanner canrif yn ôl. Mae yn sicr ym amhrisiadwy".

Bu Wythnos Gwirfoddoli eleni yn un werth chweil unwaith eto. Diolch i bawb fu ynghlwm gyda'r trefniadau a diolch yn arbennig i'r gwirfoddolwyr ym mhob cwr o'r wlad sydd yn gwirfoddoli trwy'r flwyddyn i wella bywydau eraill.

Cofiwch i gyd "Tydi gwirfoddolwyr ddim yn derbyn tâl ariannol, nid am eu bod yn ddiwerth ond am eu bod yn amhrisiadwy."

**Tan Tro Nesa
Bethan**

O wrando ar gymunedau led-led Gwynedd, mae **Hunaniaeth: Menter Iaith Gwynedd** yn treialu

Cynllun Cyfieithu Cymunedol

Dyma:

- **gynllun peilot** i ymestyn ffiniau defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, Mentrau Cymdeithasol a Grwpiau Cymunedol **nad ydynt** yn defnyddio offer cyfieithu ar y pryd
- i alluogi **cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd**, yn unig
- er mwyn hwyluso cyfranogaeth yn y Gymraeg, a chynnwys PAWB!

Os am fanteisio ar y adnodd yma cysylltwch ar unwaith â **Hunaniaeth** i drefnu sesiwn i gael eglurhad o'r Cynllun.

Hunaniaeth@

gwynedd.llyw.cymru
01286 679452

Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau a dderbynnir cyn **30 Medi**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

BWS ARFORDIR LLŶN COASTAL BUS

Bws Dydd Iau, Gwener, Sadwrn, Sul
Thursday, Friday, Saturday & Sunday Bus

Trefor-Nefyn-Aberdaron-Abersoch-Llanbedrog

Pen Lân Trefor	08:40	---	13:00	16:00
Llithfaen	08:48	---	13:08	16:08
Maes Parau yr Egl	08:50	---	13:10	16:10
Nefyn cyr/arr	09:00	10:36	13:20	16:20
Nefyn gad/dep	09:00	11:00	14:00	16:20
Morfa Nefyn	09:03	11:03	14:03	16:23
Tudweiliog	09:09	11:09	14:09	16:29
Llanegwinnadl	09:18	11:18	14:18	16:35
Porthor	09:30	11:30	14:30	16:42
Aberdaron cyr/arr	09:36	11:36	14:36	16:46
Uwchmynydd	09:37	11:37	14:40	16:50
Aberdaron gad/dep	10:00	12:00	15:00	17:00
Rhiw	10:10	12:10	15:10	17:10
Porth Neigwl	10:25	12:25	15:25	17:25
Sarn Bach	10:31	12:31	15:31	17:31
Abersoch	10:33	12:33	15:33	17:33
Llanbedrog	10:40	12:42	15:42	17:42

Llanbedrog-Abersoch-Aberdaron-Nefyn-Trefor

Llanbedrog	08:50	10:40	13:50	15:42
Abersoch cyr/arr	09:00	10:48	14:00	16:00
Abersoch gad/dep	09:00	11:00	14:00	16:00
Sarn Bach	09:02	11:02	14:02	16:02
Porth Neigwl	09:08	11:08	14:08	16:08
Rhiw	09:23	11:23	14:23	16:23
Aberdaron cyr/arr	09:33	11:33	14:33	16:33
Uwchmynydd	09:37	11:37	14:40	16:50
Aberdaron gad/dep	10:00	12:00	15:00	17:00
Porthor	10:06	12:06	15:06	17:06
Llanegwinnadl	10:18	12:18	15:18	17:18
Tudweiliog	10:27	12:27	15:27	17:22
Morfa Nefyn	10:33	12:33	15:33	17:25
Nefyn	10:36	12:36	15:36	17:30
Llithfaen	10:45	12:45	15:42	---
Pen Lân Trefor	---	13:00	16:00	---

£1-£2

BWS ARFORDIR LLŶN COASTAL BUS ROUTE

LLŶN ARFORDIR COASTAL PATH

ARIAL DODD PICK UP AREA

BWCIO YMLAEN LLAW PRE-BOOKED REQUEST

--- DIM GWASANAETH NO SERVICE

cyr/arr cyrhaedd/arrive

gad/dep gadael/depart

www.bwsarfordirllyn.org © 01758 721 777

Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd 2017-18

Mae dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i'r rownd nesaf ar y 29ain Medi 2017. Mae hyd at £500 ar gael ar gyfer eich mudiad chi. Cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli am ragor o wybodaeth. ymholiadau@mantellgwynedd.com • 01286 672626

Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn 2017

Cyfraniadau Arbennig

Anthony Caradog Evans - STORIEL
 Lowri Lloyd Williams – Gwasanaeth Cyfiawnder
 Ieuenctid Gwynedd a Môn
 Rita Jones – Clwb Strôc Môn ac Arfon
 Gwenda Williams - Clwb Strôc Môn ac Arfon
 Elinor Ellis – Amgueddfa Forwrol Llŷn
 Jilly Roberts – Amgueddfa Forwrol Llŷn
 Gwerfyl Gregory - Amgueddfa Forwrol Llŷn
 Thomas Speddy - Ambiwllans Awyr Cymru-
 Bangor
 John Willmott – Elfennau Gwyllt
 Chris Copeland – Cymdeithas y Deillion
 Glyn Owen – Ffermwyr Ifanc Eryri
 Violet Duke – Ambiwllans Awyr Cymru
 Dafydd Roberts – Tystysgrif 200 awr
 Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Yn ogystal, derbyniodd y gwirfoddolwyr canlynol dystysgrifau am gyfraniad arbennig

Declan McGrath – STORIEL
 Nigel Williams – Gwasanaeth Cyfiawnder
 Ieuenctid Gwynedd a Môn
 Nicola Pengelly – GISDA
 Steven Roberts – GISDA
 Catherine Williams – Clwb Strôc
 Môn ac Arfon
 Margaret Adkins – Amgueddfa
 Forwrol Llŷn
 Amy Bather – Canolfan Lôn Abaty
 Dorothy Hanks – Cymdeithas y
 Deillion
 Nesta Griffith – Ffermwyr Ifanc Eryri
 Geraint Harper – Ffermwyr Ifanc
 Eryri
 Mike Duke – Ambiwllans Awyr Cymru
 Ann Williams – Tystysgrif 100 awr
 Cynllun Gwirfoddoli Gwynedd



Abbi Gosling – Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor



Cyfeillion Coedlannau Llanbedr



Cŵn Tywys Gwynedd



Anthony Caradog Evans – STORIEL



Lowri Lloyd Williams – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Gwynedd a Môn



Rita Jones – Clwb Strôc Môn ac Arfon



Gwenda Williams – Clwb Strôc Môn ac Arfon



Elinor Ellis – Amgueddfa Forwrol Llŷn



Jilly Roberts – Amgueddfa Forwrol Llŷn



Gwerfyl Gregory – Amgueddfa Forwrol Llŷn



Thomas Speddy – Ambiwlans Awyr Cymru – Bangor



John Willmott – Elfennau Gwyllt



Chris Copeland – Cymdeithas y Deillion



Glyn Owen – Ffermwyr Ifanc Eryri



Violet Duke – Ambiwlans Awyr Cymru



Dafydd Roberts – Tystysgrif 200 awr
Gwirfoddolwyr y Mileniwm



**WYTHNOS GWIRFODDOLWYR
VOLUNTEERS' WEEK**

Digwyddiad Iechyd Da - Hydref 13, 2017



Cynhelir digwyddiad **Iechyd Da** eleni yn y **Ganolfan Hamdden yn Nolgellau** ar **Ddydd Gwener Hydref y 13eg 2017**.

Os hoffech gael gofod yn y digwyddiad yma a fuasech chi gystal â chysylltu gyda ni yma ym Mantell Gwynedd unai ar **01286 672626** neu **01341 422575** neu **sioned@mantellgwynedd.com**

Fforwm Cleifion Cancer Gogledd Cymru

Mae pobl gyda phrofiad personol o ofal cancer yn rhannu eu barn a'u syniadau i helpu i wella gwasanaethau cancer lleol drwy'r Fforwm yma. A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn helpu?

Mae Fforwm Cleifion Cancer Gogledd Cymru yn dod â chleifion cancer, eu teuluoedd a'u ffrindiau at ei gilydd ac yn eu galluogi i leisio eu barn gan ddefnyddio hynny i wneud newidiadau cadarnhaol i ofal cancer yn lleol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Fforwm wedi gweithio gyda meddygon, nyrsys a rheolwyr y GIG i sicrhau eu bod yn darparu gofal o ansawdd sydd yn cwrdd ag anghenion y boblogaeth leol. Mae'r Fforwm yn aml wedi bod fwyaf effeithiol wrth ddelio â newidiadau bychan sy'n medru gwneud gwahaniaeth mawr i brofiad claf neu ofalwr.

Sut medrwyd chi helpu?

- ◆ Mae croeso i chi fynd draw i un o gyfarfodydd Fforwm Gogledd-orllewin Cymru sydd yn cael eu cynnal bob dau fis yn Ysbyty Gwynedd. Mae cyfarfodydd yma yn gyfle i glywed a rhannu barn a'r bynciau y dydd sy'n effeithio cleifion cancer yn yr ardal leol. Mae'r Fforwm yn medru ad-dalu costau teithio ac yn ceisio cynnwys cynrychiolwyr o bob cymuned.
- ◆ Hyd yn oed os na fedrwyd fynyddu cyfarfodydd, gallwch dderbyn newyddion a lleisio eich barn trwy e-bost.
- ◆ Gallwch gysylltu â'r Fforwm i ddweud am eich profiad chi o'r gwasanaethau cancer – beth weithiodd yn dda a beth allai fod yn well.

Os ydych chi wedi eich effeithio gan ganser, mae eich

barn yn bwysig a gallai helpu i wella gofal a chymorth i eraill. Gallwch wneud gwahaniaeth.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ar: **01745 445 168**
pat.evans@wales.nhs.uk

neu ewch ar y wefan

www.northwalescancerforum.co.uk

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru - Gwefan newydd!

Mae gan Gydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru wefan newydd sy'n llawn gwybodaeth am y gwaith rhanbarthol sydd ar y gweill i wella gofal cymdeithasol a lles. Mae'r safle yn cynnwys tudalennau ar yr asesiad poblogaeth lle y gallwch lawr lwytho penodau unigol o'r adroddiad a newyddlenni. Bydd hefyd yn cynnwys diweddariadau ar gynllun rhanbarthol yr asesiad poblogaeth wrth iddo ddatblygu - **www.cydweithredfagogleddcymru.cymru**

Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon

Mae Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol (ardal Arfon) yn derbyn cyfeiriadau gan Feddygon Teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Am fwy o wybodaeth am y cynllun cysylltwch â Rhian:

Rhian.Griffiths@mantellgwynedd.com

neu **01286 672626 / 07940375467**.

CYSWLLT WEN A'R
CONTACT US
01286 672626
07940375467
LINC@MANTELLGWYNEDD.COM

**CYSWLLT
CYMUNEDOL
ARFON
COMMUNITY
LINK**



Pam bod angen mesur ein gwerth cymdeithasol?

Gweler isod ychydig o resymau sy'n dangos pwysigrwydd mesur ein gwerth cymdeithasol a sut gall hyn eich cefnogi chi yn y dyfodol.

1

GWELLA CEISIADAU ARIANNOL

– dangos gwerth am arian o ganlyniad i'ch gwaith

2

DEDDFWRIAETH

– dangos eich cyfraniad i'r Ddeddf Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

3

CYFATHREBU'N WELL

– hysbysu rhanddeiliaid mewnol ac allanol am eich gwaith

4

DEALL Y GWAHANIAETH SYDD WEDI EI GREU

– gweld y gwahaniaeth yr ydych yn ei wneud i fywydau pobl

5

ADNABOD CRYFDERAU A GWENDIDAU

– deall beth sydd yn gweithio'n dda, a lle gellir gwneud gwelliannau

6

MESUR CYNNYDD

– deall os ydych yn llwyddo i gyrraedd eich amcanion ac amcanion y bobl yr ydych yn eu cefnogi

Am ragor o wybodaeth am werth cymdeithasol yna edrychwch ar ein gwefan newydd sbon sydd ag adran arbennig ar gyfer Social Value Cymru
www.mantellgwynedd.com



@Value Cymru

Cyswllt Rheolwr Gwerth Cymdeithasol: eleri@mantellgwynedd.com

Sefydliad Gofal Iechyd Barchester

Mae Sefydliad Gofal Iechyd Barchester yn gwahodd ceisiadau gan grwpiau cymunedol bychain a grwpiau lleol bychain sy'n helpu oedolion dros 18 oed sydd ag anableddau meddyliol a chorfforol, a phobl hŷn dros 65. Mae blaenoriaeth y Sefydliad yn parhau o 2016, sef cysylltu neu ailgysylltu pobl ag eraill yn eu cymuned leol. Ceisiadau sy'n mynd i'r afael ag unigedd ac yn galluogi pobl i fod yn weithgar ac yn gysylltiedig fydd yn cael y flaenoriaeth uchaf drwy gydol y flwyddyn. Mae grantiau rhwng £100 a £5,000 ar gael i grwpiau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae modd gwneud cais unrhyw bryd arlein.

Mae manylion pellach ar gael ar:
<http://www.bhcfoundation.org.uk/who-we-fund> neu drwy ffonio 0800 328 3328, neu ebostio:
info@bhcfoundation.org.uk



AUSTIN AND HOPE PILKINGTON

Caiff mudiadau elusennol wneud cais am arian sy'n cefnogi'n uniongyrchol y thema a ddewiswyd gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn honno.

Bwriad yr arian yw cefnogi sefydliadau sy'n cyflawni prosiectau mewn amrywiaeth o feysydd ac mae'n gweithio ar sail system gylchdroi tair blynedd, lle bydd meysydd gwahanol o ddiddordeb yn cael eu hariannu bob blwyddyn.

Mae'r rowndiau ar gyfer 2017 fel a ganlyn:

◆ Rownd 3: Cerddoriaeth a'r Celfyddydau. Mae'r cyfnod ymgeisio rhwng 1 a 31 Gorffennaf. Bydd grantiau o £1,000 ar gael i elusennau sydd ag isafswm o £50,000 ac uchafswm o £1 filiwn o incwm gweithredol.

◆ Rownd 4: Yr Henoed. Mae'r cyfnod ymgeisio rhwng 1 Medi a 31 Hydref. Bydd grantiau o £5,000 ar gael i elusennau sydd ag isafswm o £1 filiwn o incwm gweithredol.

Dim ond am un rownd bob blwyddyn galendr y caiff elusennau wneud cais.

Mae'r ymddiriedolaeth yn gofyn bod ceisiadau yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl cyn y dyddiad cau fel bod ganddi ddigon o amser i ofyn am wybodaeth ychwanegol os bydd angen.

Ceir rhagor o fanylion ar
<https://austin-hope-pilkington.org.uk/>
 neu e-bost: admin@austin-hope-pilkington.org.uk



THE AUSTIN AND HOPE PILKINGTON TRUST

Cronfa Addysgol Thomas Howells ar gyfer Gogledd Cymru

Elusen wedi ei lleoli yn Llundain yw Cronfa Addysgol Thomas Howells. Mae'r gronfa addysgol Thomas Howells ar gyfer ysgolion a/neu fudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc o dan 25 oed sy'n profi anfantais / amddifadedd neu deimlo'n ynysig neu o deuluoedd incwm-isel o fewn y chwe Sir yng Ngogledd Cymru.

Mae'r panel yn cyfarfod tair gwaith y flwyddyn i asesu ceisiadau yn arferol yn ystod mis Mawrth / Mehefin a mis

Hydref. Mae'n rhaid cyflwyno cais am arian 5 wythnos cyn y dyddiad nodir ar eu gwefan. Y dyddiad cau nesaf yw **8fed o Fedi 2017**. Mae'r ffurflen gais ar gael ar eu gwefan.

Am fwy o wybodaeth ewch i:
<http://www.thedrapers.co.uk/Charities/Grant-making-trusts/The-Thomas-Howells-Education-Fund-for-North-Wales.aspx>

Taith Uned Symudol Mantell Gwynedd yn ystod haf 2017



23 Awst

Sioe Amaethyddol Meirionnydd – Tywyn

9 Medi

Sioe Amaethyddol Trawsfynydd – Trawsfynydd

Cofiwch fod Uned Symudol Mantell Gwynedd ar gael i'w llogi am bris rhesymol iawn

COSTAU LLOGI'R UNED

Aelodau o Mantell Gwynedd: £130 y diwrnod (a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).

Defnyddwyr eraill: £150 y diwrnod (a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod telerau arbennig e.e. defnyddio'r cerbyd yn rheolaidd am gyfnod penodol (gallwn ddod i drefniadau rhesymol iawn).

Cysylltwch drwy e-bostio:

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffônio: **01286 672 626**

Neu trwy ein gwefan: **www.mantellgwynedd.com**



Hyfforddiant WCVA

Ymwelwch â gwefan WCVA i chwilio am hyfforddiant www.wcva.org.uk

HYFFORDDIANT / DIGWYDDIADAU MANTELL GWYNEDD

Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys

Dyddiad: 19-10-17

Lleoliad: Neuadd Goffa Penygroes

Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu

Dyddiad: 25-10-17

Lleoliad: Clwb Pêl-droed, Porthmadog

Hyfforddiant Diogelwch Bwyd Lefel 2 Mewn Arlwy

Dyddiad: 31-10-17

Lleoliad: Y Ganolfan, Porthmadog

I gofrestru i fynychu hyfforddiant a nodir uchod cysylltwch ag **Ellen** ar **01341 422575** neu

ellen@mantellgwynedd.com

Neu os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â

Delyth Vaughan Rowlands ar **01286 672626** neu **delyth@mantellgwynedd.com**

YSTAFELLOEDD AR OSOD

23-25 Y Bont Bridd,
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

Yr Hen Orsaf Heddlu,
Y Lawnt
Dolgellau LL40 1SB



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Ceren Williams, Mantell Gwynedd
01286 672 626

ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com



[facebook.com/mantellg](https://www.facebook.com/mantellg)



[@MantellGwynedd](https://twitter.com/MantellGwynedd)